SESIWN 5: GALL SETIAU DATA NEWID MEDDYLFRYD

Ystod oedran: 11-14 oed

Amlinelliad

Yn y sesiwn olaf hwn, bydd gan y dysgwyr fwy o ryddid ac amser i greu eu ffeithlun eu hunain. Byddant yn cael casgliad newydd o ystadegau yn ymwneud ag anghydraddoldeb i'w trafod a'u defnyddio fel sail i set o ddyluniadau drafft. Yna byddant yn cael cyfle i ddewis a chyfuno eu hoff dechnegau dylunio er mwyn cyfathrebu eu dewis o ddata mewn ffordd gyffrous ond dealladwy.

Amcanion dysgu

Bydd y dysgwyr yn gwneud y canlynol:

- Ymchwilio a thrafod gwahanol setiau data anghydraddoldeb
- Ystyried gwahanol gyfosodiadau, cynlluniau lliw, ffurfdeipiau, pictogramau a chaligramau
- Mireinio eu sgiliau dylunio ffeithluniau yn Photoshop

Deilliannau dysgu

Bydd y dysgwyr yn dysgu:

- Dewis / dod o hyd i'r set ddata sydd o'r diddordeb mwyaf iddyn nhw
- Cofnodi a gwerthuso tri opsiwn dylunio â llaw
- Cynhyrchu poster anghydraddoldeb terfynol yn Photoshop

Cwestiynau allweddol

- Pa un o'r ystadegau hyn sy'n dal eich sylw? Pam?
- Sut y gellid cyfleu'r data newydd hyn trwy ddulliau graffig?
- Beth rydych chi wedi ei ddysgu am offer / technegau Photoshop ac elfennau dylunio a allai eich helpu â'ch cynigion dylunio?

Adnoddau

- Cyfrifiaduron â mynediad i'r rhyngrwyd ac *un* o'r canlynol:
  - Mynediad i www.easel.ly
  - Photoshop (mae'r cyfarwyddiadau enghreifftiol yn seiliedig ar fersiwn CS6 ond gellid eu haddasu ar gyfer fersiwn arall)
  - Rhaglen ddylunio arall y mae'r dysgwyr yn gyfarwydd â'i defnyddio
- Canllaw i Athrawon Sesiwn 5, yn cynnwys:
  - Copïau o Daflen Waith 5

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cyn y sesiwn

- Asesu'r deilliannau o Sesiwn 4 er mwyn paratoi rhestr o elfennau dylunio a thechnegau Photoshop sydd wedi bod yn llwyddiannus/aflwyddiannus hyd yn hyn.

Gweithgaredd 5

Crëwch eich ffeithlun anghydraddoldeb eich hun

- Gofynnwch i bob dysgwr agor y ffeiliau sy'n cynnwys y dyluniadau a wnaethant yn y sesiwn diwethaf a'u gwneud yn fwy ar eu monitorau. Os oes digon o le ac amser, arweiniwch y dosbarth mewn trafodaeth grŵp feirniadol o'r deilliannau hyn:
  - Beth yw nodweddion cyffredin y dyluniadau cryfaf?
  - Sut y gellid gwneud y dyluniadau hyn hyd yn oed yn well (yn fwyaf penodol, trwy ddefnyddio geirfa ddylunio)?
  - Pa symbolau/ffurfiau eraill allai fod wedi cael eu defnyddio i gyfleu cyfoeth a'i ddosbarthiad?
    (Er enghraifft, arwyddion doler, bagiau arian, darnau o arian, ac yn y blaen)

- Dosbarthwch Daflen Gweithgaredd 5, neu ei dangos gan ddefnyddio taflunydd, a darllenwch drwyddi fel dosbarth. Trafodwch bob opsiwn, gan gadw'r cwestiynau hyn mewn cof:
  - A yw'r ystadegyn yn eich synnu?
  - Sut y gallech ei gyfleu yn weledol ac yn syml?
  - Pa broblemau allwch chi eu rhagweld?

- Gofynnwch i'r dysgwyr ddrafftio tri dyluniad ffeithlun gwahanol â llaw ar gyfer yr ystadegyn o'u dewis. Dylech fonitro eu cynnydd, gan gadw llygad am ddulliau rhy gymhleth, a helpu pob dysgwr i ddewis yr opsiwn mwyaf effeithiol.

- Yn olaf, gall y dysgwyr ddatblygu, mireinio a manylu'r dyluniad o'u dewis ymhellach yn Photoshop. Anogwch y dysgwyr i ddal i gyfeirio at eu cofnod technegol (Taflen Gweithgaredd 4.3).

Gwahaniaethu

Gwneud pethau'n haws:

- Gellid defnyddio templedi www.easel.ly unwaith eto ar gyfer y sesiwn hwn.
- Gallai'r dysgwyr hefyd weithio mewn grwpiau i lunio rhestr o ddewisiadau effeithiol y mae dylunwyr eraill wedi'u gwneud yn aml wrth greu ffeithluniau tebyg. Dylai teipio *"inequality infographic"* yn Google Images ddangos llawer o syniadau. Efallai y byddai adolygu sioe sleidiau Sesiwn 3 yn fuddiol yma hefyd.

Gwneud pethau'n hirach:

- Gallai'r dysgwyr ymchwilio ymhellach i anghydraddoldeb (yn y llyfrgell a/neu gartref) i ddod o hyd i'w hystadegau eu hunain. Gallent fynd ymhellach nag anghydraddoldeb economaidd, ac edrych ar agweddau eraill ar anghyfartaledd mewn cymdeithas a allai achosi problemau, megis rhywedd neu hil.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Heriwch y dysgwyr i drosi graffiau sy'n cael eu cynhyrchu'n awtomatig yn Excel i ffeithluniau mwy trawiadol. Mae rhai enghreifftiau da i'w gweld yn: http://oxfamblogs.org/mindthegap/2015/01/19/billionaires-a-lot-of-wealth-a-lot-of-zeros-and-a-lot-of-influence/

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

Taflen Gweithgaredd 5 Opsiynau data anghydraddoldeb

Dewiswch ystadegyn i'w gyfleu
Mae gan hanner isaf poblogaeth y byd yr un faint o eiddo â'r 86 person mwyaf cyfoethog yn y byd.[1]
Yn 2014, roedd cyflog y 100 person sy'n dal y swyddi uchaf yn y DU 131 gwaith yn fwy na chyflog y gweithiwr cyffredin, ond dim ond 15 o'r cwmnïau hyn sydd wedi ymrwymo i dalu cyflog byw i'w gweithwyr.[2]
Mae saith o bob deg person yn byw mewn gwledydd lle mae anghydraddoldeb economaidd wedi cynyddu yn y 30 mlynedd diwethaf.[3]
Mae llawer mwy o ddynion nag o fenywod ar frig yr ysgol incwm, ac mewn swyddi pwerus, er enghraifft gweinidogion ac arweinwyr busnesau. Dim ond 23 o brif weithredwyr cwmnïau Fortune 500, a dim ond tri o'r 30 person mwyaf cyfoethog yn y byd, sy'n fenywod. Yn y cyfamser, menywod yw'r rhan fwyaf o'r gweithwyr sydd â'r cyflogau isaf a'r rhai sydd yn y swyddi mwyaf ansefydlog. Yn Bangladesh, er enghraifft, menywod yw bron i 85% o'r gweithwyr yn y diwydiant dillad.[4]
I roi'r cyllid ar gyfer argyfwng Ebola mewn persbectif, mae Banc y Byd yn amcangyfrif bod y gost economaidd i Guinea, Liberia a Sierra Leone yn $356 miliwn mewn cynnyrch a gollwyd yn 2014, ac yn $815 miliwn arall yn 2015 os yw'r epidemig yn araf yn cael ei reoli. Gallai'r cynnydd mwyaf mewn cyfoeth rhwng 2013 a 2014 gan un biliwnydd sy'n gysylltiedig â'r diwydiant fferyllol dalu'r gost gyfan o $1.17 biliwn ar gyfer 2014–15 dair gwaith drosodd. Cynyddodd Stefano Pessina ei werth net $4 biliwn, o $6.4 biliwn i $10.4 biliwn mewn un flwyddyn; y cynnydd unigol mwyaf mewn cyfoeth o'r holl filiwnyddion a restrwyd sydd â buddiannau y meysydd fferylliaeth a gofal iechyd.[5]

[1] Credit Suisse (2013) 'Global Wealth Report 2013', Zurich: Credit Suisse; and Forbes' List of the World's Billionaires' http://www.forbes.com/billionaires/list/ (darllenwyd ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2013)
[2] Oxfam GB (2014) 'Even It Up: Time to End Extreme Inequality', Oxford: Oxfam GB, t.15.
[3] The World Top Incomes Database, http://topincomes.g-mond.parisschoolofeconomics.eu/
[4] Oxfam GB, *op. cit.* t.10.
[5] Oxfam GB (2015) 'Wealth: Having It All and Wanting More', Oxfam Issue Briefing January 2015, Oxford: Oxfam GB, t.8.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.